



Cymunedau am Waith Astudiaeth Achos 2 - Mrs B

Mae Mrs B yn briod gyda 4 o blant. Mae tri o'r pedwar plentyn mewn addysg amser llawn; mae'r ieuengaf dan flwydd oed.

Mae gan Mrs B gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar ei gallu i weithio ac mae gan un o'i phlant broblemau iechyd sy'n effeithio ar ei bywyd dydd i ddydd. Mae hi wedi bod yn ddi-waith ers oddeutu dwy flynedd i gyd ac mae'n byw mewn ardal sydd â lefelau uchel o amddifadedd. Roedd Mrs B eisiau dangos i'w phlant, y gallwch chi fod yn llwyddiannus waeth ble y cewch eich magu.

Cefnogodd y mentor Mrs. B i baratoi am gyfswiliad, drwy roi cyngor iddi ar ei dillad, trafod y math o gwestiynau y gallent ofyn iddi a threfnu ffug-gyfswiliad gyda dau gydweithiwr. Bu cyfswiliad Mrs B yn llwyddiannus a chynigiwyd swydd amser llawn iddi.

Hefyd, rhoddodd y mentor Cymunedau am Waith gyngor ynglŷn â thrin arian a sut mae'n talu ei biliau drwy sefydlu cyfrif ar gyfer biliau a thrafodwyd hefyd sefydlu cyfrif cynilo.

Mae Mrs B bellach wedi ymgartrefu yn ei swydd newydd ac mae'n edrych ymlaen at y dyfodol.

Cafodd gŵr Mrs B hefyd gefnogaeth gan Cymunedau am Waith ac o ganlyniad, mae wedi sefydlu ei fusnes ei hun ac yn gweithio'n hunangyflogedig.

Arfer da

- Cydweithio i ddarparu dull cyfannol i gefnogi Mrs B.
- Ffug gyfswiliad, roedd yn fuddiol iawn ac yn hwb i'w hyder.
- Cafodd Mrs B gadarnhad y gallai redeg cartref a darparu ar gyfer ei theulu heb fod ar fudd-dal.
- Cyplysu ag asiantaethau/prosiectau/sefydliadau eraill a allai gynnig cymorth ariannol.
- Chwilio am wahanol gyfleoedd cyflogaeth i weld beth sy'n bodloni/cyd-fynd â gofynion y cyfranogwyr.